Wythnos Elusennau Cymru 2023 – Pecyn parti

Eleni rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio **#WythnosElusennauCymru** fel esgus i ddod â'ch staff a'ch gwirfoddolwyr ynghyd i ddathlu eich elusen neu grŵp gwirfoddol.

BETH AM...?

1. Ddod â'r tîm ynghyd i ddathlu eich llwyddiannau a'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud
2. Trefnu bore coffi neu de prynhawn ar gyfer eich staff a'ch gwirfoddolwyr
3. Gwahodd eich cefnogwyr neu'r gymuned leol i ddod i glywed am eich gwaith a'i effaith

PETHAU I'W GWNEUD

Addurnwch eich ardal

Mae gennym ni **becyn digwyddiadau Wythnos Elusennau Cymru am ddim** y gallwch chi ei archebu drwy'r post (cyntaf i'r felin!) gan gynnwys addurniadau a phropiau, neu gallwch chi argraffu rhai o'r arwyddion isod. I wneud cais am becyn digwyddiadau, **anfonwch e-bost at newyddion@wcva.cymru erbyn 3 Tachwedd 2023** gan nodi'r canlynol:

1. Enw eich mudiad
2. Ychydig am yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud ar gyfer eich digwyddiad (200 gair ar y mwyaf), ac

3. Eich cyfeiriad*

Diolchwch i wirfoddolwyr a staff

Dywedwch wrthyn nhw pam mae eu cyfraniad i waith yr elusen mor bwysig ac yn cael ei werthfawrogi.

Gallech chi dynnu llun o'r person a **rhannu eich neges o ddiolch ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru** (gwnewch yn siŵr bod gennych chi ganiatâd pawb sydd yn y llun). Mae gennym ni neges ddiolch isod y gallwch chi ei hargraffu.

Gofynnwch i bobl rannu eu straeon am sut mae'r mudiad yn gwneud gwahaniaeth

Beth sy'n eich gwneud chi'n falch o fod yn rhan ohono? Beth ydych chi wedi'i gyflawni eleni? Beth wnaeth i chi chwerthin, grio neu wenu?

Gallai hwn fod yn ddim mwy na gweithgaredd sy'n rhoi hwb i'r ysbryd. Gallech hefyd ei ddefnyddio i ganu'n groch a balch am yr hyn y mae eich mudiad yn ei wneud: **rhannwch ddyfyniadau neu negeseuon fideo ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru.**

Mae'r holl wybodaeth yn y pecyn ymgyrchu hwn ar gael yn Saesneg yn welshcharitiesweek.cymru.

*Bydd CGGC yn cofnodi eich cyfeiriad at ddibenion anfon y pecyn digwyddiad yn unig. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu eich data darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd.

WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

Diolch! | Thanks!

WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

21-25 Tachwedd 2023

wythnoselusennau.cymru

21-25 November 2023

welshcharitiesweek.cymru